

Cyngor Cymuned Llanllyfni

Cofnodion cyfarfod misol y Cyngor, nos Fawrth y 9fed o Fedi 2014.

Yn bresennol oedd y Cynghorwyr OP Huws (Cadair), Hefina M W Roberts, Gwyndaf Roberts - Llanllyfni; Harry Wyn Owen – Talysarn; Iwan Lloyd Williams, Barry Bracegirdle – Penygroes; Eurig Wyn Evans – Nebo; Craig ab Iago – Cyngorydd Sir

Cynllunio.

Barics Nantlle – cais i adnewyddu caniatad blaenorol – CYMERADWYO

Tomen llechi Dolbebin (a llythyr o wrthwynebiad) – ail gyflwyniad o gais blaenorol i symud deunydd o ddyddodion gweithiau mwynau ynghyd a gwaith prosesu cysylltiol – y Cyngor yn gwrthwynebu ar sail agosrwydd i'r tai a swm.

Hafodlas Uchaf, Parc Bel, Talysarn – creu trac mynediad cerbydol newydd.

Bryn Llys, Nebo – dymchwel ty presennol a chodi ty newydd _ DIM GWRTHWYNEBIAD.

Gohebiaeth.

Cyngor Gwynedd

*Ymatebion - Arwydd at Lon Eifion – y Cyngor am fesur y fynedfa cyn gwneud unrhyw benderfyniad i roi arwydd yma; Parcio Llanllyfni – derbyniwyd cydnabyddiaeth i'n ebost; Gordyfiant Talysarn – yr arolygwr ffordd wedi ymweld a'r safle; Olew ar ffordd Trem yr Wyddfa – Cyngor Gwynedd wedi ymweld a'r safle; Gordyfiant Llanllyfni – Gorchymyn wedi ei roi ar y perchennog i dorri'r tyfiant; Gwaharddiadau parcio Heol Buddyg Penygroes – wedi ei rhoi o'r neilltu am y tro.

Gwefan OP, Dafydd ac Ifan am edrych ar yr argymhellion a roddwyd am gynnwys y wefan e.e lluniau, categorïau llwybrau ayyb. Y wefan wedi ei sefydlu, a'r dogfennau wedi eu gyrru I Gyngor Gwynedd er mwyn hawlio arian grant.

Materion Pentrefi. Penygroes Ar y ffordd ger cylchfan Poveys, craciau ar wyneb y lon; Maes parcio ger Lon Eifion – plant wedi dechrau mynd yno I yfid (ar y fainc wrth yr hysbysfyrdau newydd) – byddwn yn cysylltu efo Mark Ballaam, Cyngor Gwynedd, a chopi i'r heddlu; Yfed ger pont steshon (Wynnstay), a chaniau yn cael eu gadael; Gor-dyfiant ar Lon Talgarnedd I Penrallt Goch, sydd yn gwneud y lon yn gul iawn, a lon Pont y Cim hefyd; Cais gan Dyffryn Nantlle 2020 am lythyr o gefnogaeth I'w cais am arian grant (Siop Griffiths) – y Cyngor yn cefnogi. Talysarn Bin baw cwn yn Talysarn, ac hefyd Ffordd Clynnog, Penygroes angen eu gwagio – holi Cyngor Gwynedd pa mor aml maent yn cael eu gwagio. Nebo Llinellau heb eu paentio wedi'r gwaith ail-wynebu ffordd diweddar. Llallyfni Gor-dyfiant ar y bont rhwng Penygroes a Llanllyfni. Nantlle Gor-yrru drwy'r pentref.